

## CYFLWYNIAD

Un o goed brodorol De Ewrop, Asia Leiaf a Gogledd Affrica yw'r gastanwydden felys (*Castanea sativa*). Fe'i cyflwynwyd yn gyntaf i Gymru gan y Rhufeiniaid, a dyfai'r goeden ar gyfer ei chnau er mwyn eu malu i gynhyrchu blawd a ddefnyddid i wneud uwd o'r enw *polenta*.

## Y GOEDEN

Mewn priddoedd ffrwythlon wedi'u draenio'n dda y mae castanwydd melys yn tyfu orau. Tyfant i tua 20 metr o uchder, gyda chwmpas o hyd at 2 fetr. Mae'r coed yn dueddol o ddiodef difrod rhew yn y gwanwyn, a rhaid cymryd gofal i osgoi pantiau rhewllyd. Mae castanwydd melys yn tyfu'n gyflym gan gynhyrchu polion ffensio mewn 15 mlynedd a boncyffion llifio bychain mewn 20-25 mlynedd. Maent yn coedlannu'n rhwydd gan gynhyrchu polion glân a syth. Mae Ffigwr 1 yn dangos ffrwyth castanwydd melys ar y math "Marigoule" – croesryw toreithiog ei gynnyrch o gastanwydd Ewropeaidd ac Asiatig.

## LLUOSOGI

Gellir tyfu coed cynhyrchu pren yn hawdd o hadau a blennir cyn gynted ag y disgynnant. Mae'n well dewis hadau mawr os yw'n bosibl. Cynhyrchir hyn fel arfer gan goed sy'n tyfu ar eu pen eu hunain neu ar hyd rhodfeydd. Lluosogir mathau sy'n cynhyrchu had trwy impio rhywogaethau a chroesrywiau dethol ar wreiddgyffion eginblanhigion.



Ffig 1: Castanwydden "Marigoule"

## PLÂU AC AFIECHYDON

Wiwerod llwyd yn plicio rhisgl yw'r prif fygythiad i gastanwydd melys. Gall difrod i goed ddechrau o'r adeg y maent tua 8 oed gan barhau trwy gydol oes y goeden. Difa parhaus yw'r unig reolaeth effeithiol.

Mae rhywogaethau castanwydd yng Ngogledd America ac Ewrop wedi cael eu lleihau'n ddifrifol gan afiechyd ffwngaid, *Endothea parasitica*. Er nad yw hyn yn broblem yng Nghymru hyd yma, mae'n gwneud synnwyr i beidio â dibynnu'n ormodol ar y rhywogaeth hon.



Ffig 2: Planhigfa gastanwydd

## Y PREN

Mae pren castanwydd melys yn frown golau ei liw a chaiff ei gamgymryd yn aml am dderw. Mae'n feddalach a gwannach na derw, ond yr un mor wydn gyda band cul yn unig o wynnin darvoudus o dan y



Ffig 3: Boncyffion castanwydd

rhisgl. Mae'r pren crwn yn hawdd i'w hollti a gellir ei lifio'n dda â chylchlifiau a llifiau crwn. Mae'r pren wedi ei lifio ar ei orau o'i sychu'n araf. Pan fo'n sych mae'n bren hawdd i'w siapio, ei blaenio a'i lyfnu. Mae'n cymryd gludion a farneisiau'n dda iawn ac mae'n un o'r prenau hawsaf i'w agerblygu. Mae'r rhuddin yn gyfoethog mewn tannin sy'n cyrydu haearn yn gyflym. Nid effeithir ar hoelion neu fachau o gopr, pres na gwrthstaen. Nid yw pren o goed hŷn cystal fel arfer. Y diffygion mwyaf cyffredin yw hollt ("*shake*"), holltau cylch neu reiddiol, a 'staen sinsir' a achosir gan ffwng. Mae coed iau a pholion coedlannau'n llai tueddol o'r diffygion hyn, felly argymhellir cynaeafu cynnar.

## DEFNYDDIAU A WNEIR O'R PREN

Mae'r gastanwydden felys yn bren amlbwrpas iawn oherwydd ei gwydnwch a'i hydrinedd. Ffensio yw'r prif ddefnydd a wneir o bren crwn a defnydd hollt. Gellir defnyddio pren wedi'i lifio mewn gwaith fframio pren, fel cladin ac estyllod. Defnyddir y pren sych mewn gwaith saer ac ar gyfer dodrefn. Mae'r defnyddiau traddodiadol ohono'n cynnwys cafnau, cylchynnau casgenni, ystyllod castanwydd a ffyn cerdded. Mae'n well llosgi coed tân o gastanwydd sych mewn llosgydd boncyffion caeedig gan ei fod yn dueddol o boeri ar dân agored.



Ffig 4: Blwch blancedi castanwydd melys

## CNAU CASTAN AR GYFER COGINIO

Mae coed aeddfed yn cynhyrchu had o bryd i'w gilydd ac o ansawdd amrywiol. Anaml y mae coed coetiroedd yn cynhyrchu cnau da ac eithrio coed ar ymylon rhodfeydd. Er mwyn cynhyrchu cnydau dibynadwy o gnau mawr o goed ifanc mae'n ofynnol cael rhywogaethau dethol wedi eu tyfu o dan amodau perllan, gyda grid 10 metr x 10 metr yn nodweddiadol. Mae llawer o'r rhywogaethau masnachol yn groesrywiau gyda rhywogaethau Asiatig. Maent wedi cael eu bridio'n ddethol er mwyn cadw cnau rhagorol y rhiant Ewropeaidd ond gan ymgorffori gwydnwch rhag oerfel ac afiechydon y rhiant Asiatig. Mae rhai o'r rhain heb fod yn hunan-ffrwythlon. Rhaid plannu'r mathau hyn mewn cymysgeddau.



Ffig 5: Castanwydd melys aeddfed

Am wybodaeth bellach ar fathau ar gyfer coginio gweler [www.agroforestry.co.uk](http://www.agroforestry.co.uk)

## DARLLEN PELLACH

Mae Llwllyfr Perchnogion Coetiroedd Coed Cymru ar gael wrth ofyn amdano. Mae hwn yn rhoi manylion am blannu a gofalu am goed ifanc, prosesu a sychu pren a gwybodaeth bellach am gynhyrchion.